OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2019 Rhif 976 (Cy. 167)

2019 No. 976 (W. 167)

GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

SOCIAL CARE, WALES

Rheoliadau Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol ac Amrywiol) 2019

The Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016 (Consequential and Miscellaneous Amendments) Regulations 2019

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Gwnaed Rheoliadau Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) 2019 (O.S. 2019/237 (Cy. 56)) a Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/887 (Cy. 159)) gan ddefnyddio pwerau yn Neddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (dccc 2) ("Deddf 2016").

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i Reoliadau Trwyddedu a Rheoli Tai Amlfeddiannaeth a Thai Eraill (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2006 (O.S. 2006/1715 (Cy. 177)) a Rheoliadau Adolygu Penderfyniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2010 (O.S. 2010/746 (Cy. 75)) er mwyn cywiro mân wallau a wnaed i'r offerynnau hynny gan Reoliadau Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) 2019.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud mân ddiwygiad i Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2019 er mwyn cywiro gwall croesgyfeirio yn rheoliad 8(1) o'r offeryn hwnnw.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

The Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016 (Consequential Amendments to Secondary Legislation) Regulations 2019 (S.I. 2019/237 (W. 56)) and the Regulated Services (Penalty Notices) (Wales) Regulations 2019 (S.I. 2019/887 (W. 159)) were made using powers in the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016 (anaw 2) ("the 2016 Act").

These Regulations make amendments to the Licensing and Management of Houses in Multiple Occupation and Other Houses (Miscellaneous Provisions) (Wales) Regulations 2006 (S.I. 2006/1715 (W. 177)) and the Independent Review of Determinations (Adoption and Fostering) (Wales) Regulations 2010 (S.I. 2010/746 (W. 75)) in order to correct minor errors which were made to those instruments by the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016 (Consequential Amendments to Secondary Legislation) Regulations 2019.

These Regulations also make a minor amendment to the Regulated Services (Penalty Notices) (Wales) Regulations 2019 to correct a cross-referencing error in regulation 8(1) of that instrument.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

2019 Rhif 976 (Cy. 167)

GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

Rheoliadau Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol ac Amrywiol) 2019

Gwnaed	*31 Mai 2019*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru	*3 Mehefin 2019*
Yn dod i rym	*1 Gorffennaf 2019*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 52(1), 186 a 187(1) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016(**1**).

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol ac Amrywiol) 2019 a deuant i rym ar 1 Gorffennaf 2019.

Rheoliadau Trwyddedu a Rheoli Tai Amlfeddiannaeth a Thai Eraill (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2006

2. Yn rheoliad 4(3) o Reoliadau Trwyddedu a Rheoli Tai Amlfeddiannaeth a Thai Eraill (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2006(**2**), yn lle "cynllun lleoli unigolyn" rhodder "cytundeb lleoli unigolyn".

(**1**) 2016 dccc 2; *gweler* adran 189 am y diffiniad o "a ragnodir" a "rhagnodedig".

(**2**) O.S. 2006/1715 (Cy. 177); yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2016/216 (Cy. 85), 2019/237 (Cy. 56).

2019 No. 976 (W. 167)

SOCIAL CARE, WALES

The Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016 (Consequential and Miscellaneous Amendments) Regulations 2019

Made	*31 May 2019*
Laid before the National Assembly for Wales	*3 June 2019*
Coming into force	*1 July 2019*

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred upon them by sections 52(1), 186 and 187(1) of the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016(**1**).

Title and commencement

1. The title of these Regulations is the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016 (Consequential and Miscellaneous Amendments) Regulations 2019 and they come into force on 1 July 2019.

Licensing and Management of Houses in Multiple Occupation and Other Houses (Miscellaneous Provisions) (Wales) Regulations 2006

2. In regulation 4(3) of the Licensing and Management of Houses in Multiple Occupation and Other Houses (Miscellaneous Provisions) (Wales) Regulations 2006(**2**), for "individual placement plan" substitute "individual placement agreement".

(**1**) 2016 anaw 2; *see* section 189 for the definition of "prescribed".

(**2**) S.I. 2006/1715 (W. 177); relevant amending instruments are S.I. 2016/216 (W. 85), 2019/237 (W. 56).

Rheoliadau Adolygu Penderfyniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2010

3. Yn rheoliad 4(b) o Reoliadau Adolygu Penderfyniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2010(**1**), yn lle "9(7)(a)" rhodder "9(7)".

Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2019

4. Yn rheoliad 8(1) o Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2019(**2**), yn lle "rheoliad 12" rhodder "adran 52(1) o'r Ddeddf".

Independent Review of Determinations (Adoption and Fostering) (Wales) Regulations 2010

3. In regulation 4(b) of the Independent Review of Determinations (Adoption and Fostering) (Wales) Regulations 2010(**1**), for "9(7)(a)" substitute "9(7)".

The Regulated Services (Penalty Notices) (Wales) Regulations 2019

4. In regulation 8(1) of the Regulated Services (Penalty Notices) (Wales) Regulations 2019(**2**), for "regulation 12" substitute "section 52(1) of the Act".

Julie Morgan

Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
31 Mai 2019

Deputy Minister for Health and Social Services, under authority of the Minister for Health and Social Services, one of the Welsh Ministers

31 May 2019

©ⓗHawlfraint y Goron 2019

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2019

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

(**1**) O.S. 2010/746 (Cy. 75); yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2016/211 (Cy. 84), 2019/237 (Cy. 56).
(**2**) O.S. 2019/887 (Cy. 159).

(**1**) S.I. 2010/746 (W. 75); relevant amending instruments are S.I. 2016/211 (W. 84), 2019/237 (W. 56).
(**2**) S.I. 2019/887 (W. 159).

£4.90

W201905311006 06/2019

http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2019/976

ISBN 978-0-348-20429-2

9 780348 204292